Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 45 – 10 MEHEFIN 2010

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr (1-7 Mehefin 2010) newydd ddod i ben. Dathliad blynyddol yw hwn o'r cyfraniad gwych y mae miliynau o wirfoddolwyr yn ei wneud ar draws y DU. A pha enghraifft gwell o bwysigrwydd gwirfoddolwyr yn ein cymunedau nag Eisteddfod yr Urdd Ceredigion a fu'n cymaint o lwyddiant yr wythnos ddiwethaf.

Ar 7 Mehefin, roedd CAVO – y corff ymbarél ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Ngheredigion – yn cynnal Seremoni Gwobrwyo i gydnabod y gwaith da a wneir gan wirfoddolwyr ar draws y sir.

Yr oedd Alun Morris, sy'n gwneud gwaith gwirfoddol diflino yn y Morlan, wedi'i enwebu ar gyfer gwobr gyda CAVO ac, er na enillodd y brif wobr, cafodd ei gyflwyno gyda thystysgrif o gydnabyddiaeth yn ystod y seremoni. Fe'i gwelir yn y llun gyda Carol Jenkins, Rheolwr Morlan.

Yr oedd Alun hefyd wedi'i enwebu ar gyfer gwobr debyg gyda'r WCVA – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Derbyniodd ef, a dau berson arall o Geredigion, gymeradwyaeth uchel am eu gwaith a chyflwynwyd tystysgrif o gydnabyddiaeth iddynt gan Rhodri Jones o WCVA. Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Rhodri Jones o WCVA, Alun Morris, y Cynghorydd Haydn Lewis, y ddau wirfoddolwr arall a Rik Mowbray o CAVO.

Mae yna amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael yn y Morlan – cysylltwch am wybodaeth bellach.

Nodir isod y digwyddiadau sydd ymlaen yn y Morlan dros yr wythnosau nesaf.

SOAR Y MYNYDD
Hyd at 3 Gorffennaf
Mae'r arddangosfa hon gan y Llunwyr Lluniau yn parhau am rai wythnosau eto. Mae'n arddangosfa boblogaidd iawn felly cofiwch alw mewn i'w gweld.

SGWRS GAN SUE JONES-DAVIES: *"CENSORSHIP OF ABERYSTWYTH FILMS"*
2.30, dydd Iau, 17 Mehefin
Cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio. Croeso i bawb.

MISS JULIE
7.30, nos Fercher, 23 Mehefin



Cwmni *Living Pictures* yn cyflwyno drama Strindberg *Miss Julie* mewn cyfieithiad newydd gan Ragna Weisteen. Wedi'i gosod ar droad yr 20fed ganrif, mae stori glasurol Strindberg yn ymdrin â'r ymrafael rhwng dosbarth, cariad a chwant. Mae Miss Julie yn ceisio dianc bywyd cyfyng ei chymdeithas … mae'n dawnsio'n bryfoclyd gyda'r dynion ym mharti Gŵyl Ifan i ddathlu diwrnod hira'r flwyddyn. Yn arbennig, mae'n dawnsio gyda Jean, un o weision ei thad. Mae Gŵyl Ifan yn enwog am wallgofrwydd ... mae Jean a Miss Julie yn mynd yn rhy bell … does dim troi'n ôl. Perfformir y cynhyrchiad newydd cyffrous newydd hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n cynnwys côr byw yn canu bob nos. Tocynnau ar gael o'r Morlan: £6 (£4 gostyngol).

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 24 Mehefin
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 30 Mehefin
Cyfarfod misol (dydd Mercher ola' bob mis) i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr